# Coleg Caerdydd a'r Fro

## Datganiad Caethwasiaeth a Masnachu Pobl

Mae Coleg Caerdydd a'r Fro (CCAF) yn credu ei bod yn hanfodol wrth brynu nwyddau a gwasanaethau bod hyn yn cael ei wneud heb achosi niwed i eraill. Rydym wedi ymrwymo'n llwyr i weithredu'n foesegol a didwyll yn ein holl drafodion a pherthnasoedd busnes.

Trwy wneud hynny, mae CCAF yn cefnogi dull Llywodraeth y DU o weithredu Egwyddorion Arweiniol y CU ar Hawliau Pobl a Busnes drwy ddweud wrth ein staff, ein myfyrwyr, ein llywodraethwyr a'n rhanddeiliaid am ein polisi mewn perthynas â chaethwasiaeth fodern, masnachu pobl, llafur gorfodol a rhwymedig, a mynd yn groes i hawliau llafur yn ei gadwyni cyflenwi.

Gwneir y datganiad hwn yn unol ag adran 54(1) Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 ac mae'n cyfateb i ddatganiad caethwasiaeth a masnachu pobl ein grŵp ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2024.

Mae CCAF yn cymryd camau i sicrhau tryloywder ei gadwyni cyflenwi ac mae'n hybu osgoi llafur plant, gan barchu hawliau dynol ac osgoi ecsbloetio yn ei ymrwymiad i gaffael cynaliadwy a chyfrifol.

Mae CCAF wedi datgan y categorïau canlynol fel rhai risg uchel – Dillad, Bwyd, Offer TGCh. O ganlyniad, dyma'r meysydd y bydd yn canolbwyntio ei ymdrechion arnynt.

Gofynnir i gyflenwyr yn y meysydd hyn ymrwymo fel lleiafswm i God Sylfaen y Fenter Masnachu Moesegol (ETI). Mae Cod Sylfaen yr ETI wedi'i seilio ar gonfensiynau'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol (ILO) ac mae'n god a gydnabyddir yn rhyngwladol ar gyfer arferion llafur. Mae'n datgan bod rhaid wrth y canlynol:

- Dewis cyflogaeth yn rhydd
- Mae rhyddid cyswllt a'r hawl i fargeinio casgliadol yn cael eu parchu
- Mae amodau gwaith yn ddiogel a glân
- Ni ddefnyddir llafur plant
- Mae cyflogau byw yn cael eu talu
- Nid yw'r oriau gwaith yn ormodol
- Does dim gwahaniaethu'n digwydd
- Darperir cyflogaeth reolaidd
- Ni chaniateir unrhyw driniaeth lem neu annynol.

Gan edrych tua'r dyfodol, mae CCAF yn mynegi ei ymrwymiad i'r canlynol:

- Gwell dealltwriaeth o'n cadwyni cyflenwi a gweithio tuag at well tryloywder a chyfrifoldeb at y bobl sy'n gweithio ynddynt.
- Monitro meysydd sy'n cynrychioli risg, gan weithio gyda chyflenwyr, sefydliadau fframwaith a masnachfreintiau i fonitro'r cadwyni cyflenwi hynny'n fanwl.
- Lliniaru'r risg o gaethwasiaeth a masnachu pobl yn ein cadwyni cyflenwi a chymryd camau gweithredu priodol os oes angen.

Mae ymrwymiad y Coleg i asesu risg a chaffael moesegol, yn cynnwys egwyddorion Deddf Cydraddoldeb 2010, mewn unrhyw weithgaredd caffael, yn cefnogi lliniaru'r risgiau a nodir



| | |
|---|---|
| **Rhif Adolygiad:** | 7 |
| **Dyddiad Adolygu Diwethaf:** | Hydref 2023 |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf:** | Hydref 2024 |

uchod. Hyd yma nid ydym wedi dod yn ymwybodol o unrhyw weithgareddau masnachu pobl / caethwasiaeth yn y gadwyn gyflenwi ond, os tynnir ein sylw at hyn, byddwn yn gweithredu ar unwaith yn unol â'n rhwymedigaethau cyfreithiol a moesol.

Mae'r datganiad hwn yn cynnwys ein gwaith gyda phob partner, gan gynnwys masnachfraint.

| | |
|---|---|
| Dyddiad cymeradwyo: Hydref 2023 | Rheolwr Cyfrifol: Pennaeth Cynorthwyol, Ansawdd, Addysgu a Dysgu |
| Cymeradwywyd gan: CQSA | Arweinydd Gweithredol: Pennaeth Cynorthwyol, Ansawdd, Addysgu a Dysgu |
| Dyddiad adolygu: 1 Hydref 2024 | Hygyrch i Fyfyrwyr: Ydi |